

CYFLWYNO’R ASTUDIAETH

Croeso i’r Ymgynghoriad

Fe’ch gwahoddir i ystyried y dewisiadau trafnidiaeth posibl ar gyfer gwella cysylltiadau trafnidiaeth yn y coridor o gyffordd 34 yr M4 i’r A48 wrth Sycamore Cross sy’n cynnwys Pendeulwyn. Mae’r ymgynghoriad hwn yn gam pwysig yng Ngham Dau Canllaw Cynllunio a Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru (WelTAG): astudiaeth Achos Busnes Amlinellol y mae Arcadis Consulting (UK) Limited yn ei gwneud ar ran Cyngor Bro Morgannwg.

Nid oes statws gan y dewisiadau a ddangosir. Cytunwyd arnynt fel sail ar gyfer ymgynghoriad gan Grŵp Adolygu o rhanddeiliaid allweddol ac awdurdodau lleol cyfagos.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Peter Brett Associates i asesu’r ‘Achos am Newid’ i fynd i’r afael â materion cysylltedd ar gyfer safleoedd cyflogaeth strategol ym Mro Morgannwg (a gwblhawyd ym mis Chwefror 2018). Mae’r Astudiaeth hon wedi llywio Cam Dau’r astudiaeth.



Yr Achos am Newid: Pam fod angen gwelliannau?



Mae Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter (AF) Sain Tathan yn cyflwyno cyfle cyflogaeth sy’n bwysig yn strategol yn Ne Cymru. Mae cysylltedd trafnidiaeth yn gyfyngiad sy’n ei wneud yn llai deniadol i bobl a chyfleoedd buddsoddi.



Mae cysylltiadau trafnidiaeth ar bob ffordd sy’n cysylltu’r Fro â’r Prifddinas-Ranbarth ehangach yn profi tagfeydd sylweddol ac amseroedd teithio annibynadwy.



Mae mynediad ar y ddaear at Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn wael ac yn cyfyngu ar y gallu i ddatblygu llwybrau a niferoedd teithwyr.



Mae mynediad cerbydau nwyddau i ac o Fro Morgannwg dan y safon, gyda materion sy’n gysylltiedig â dibynadwyedd amser teithiau a phennu llwybrau.



Mae coridor Pendeulwyn o’r M4 wrth Gyffordd 34 i’r A48 o ansawdd wael gydag adrannau hir o draciau unigol a gwelededd gwael. Mae’r llwybr wedi dod yn ffordd a ddefnyddir i osgoi traffig gydag effeithiau negyddol ar y cymunedau ar hyd y llwybr.



Mae trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiadau cerdded a beicio yn yr ardal ac i safleoedd cyflogaeth strategol yn gyfyngedig. Dibynnir yn fawr ar y car.

Beth fydd yn digwydd os bydd dim yn newid?



Bydd y problemau cyfredol yn gwaethygu gyda rhagolygon o gynyddiadau sylweddol mewn traffig ar y rhwydwaith ffordd strategol a lleol fydd yn gwaethygu perfformiad y rhwydwaith traffig ac achosi mwy o ddamweiniau.




Mae problemau trafnidiaeth yn debygol o effeithio ar ddyheadau datblygu ar gyfer yr ardal ac apêl Bro Morgannwg fel lle i weithio, byw a buddsoddi ynddo.

Newidiadau a Ragwelir i Lifau Traffig rhwng 2015 a 2036 (gan Fodel Trafnidiaeth De-Ddwyrain Cymru)

Ffordd Gyswllt	AM	Rhwng Amseroedd Pysur	PM
1. Pendeulwyn (isffordd)	18%	33%	25%
2. Yr M4 – gorllewin cyffordd 34	33%	42%	32%
3. Yr M4 – dwyrain cyffordd 34	28%	40%	26%
4. A4119	15%	44%	11%
5. Yr M4 – dwyrain cyffordd 33	29%	39%	32%
6. Ffordd Gyswllt yr A4232	27%	42%	25%
7. Yr A48 – dwyrain Sycamore Cross	34%	89%	88%
8. Yr A48 – gorllewin Sycamore Cross	25%	31%	18%
9. Lôn Pum Milltir	46%	151%	80%

Ardal yr astudiaeth



Gwella Trafnidiaeth Strategol yn Amgylchynu Coridorau ar gyfer Cyffordd 34 yr M4 i’r A48 gan gynnwys Coridor Pendeulwyn

Cam Dau WelTAG: Achos Busnes Amlinellol

